

Beth mae'r Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol wedi'i argymhell ...

... Nodyn i Blant a Phobl Ifanc

Pwrpas y nodyn hwn yw dweud wrth blant a phobl ifanc am yr argymhellion sydd wedi'u gwneud gan banel yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol. Roedd yr adolygiad hwn wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i wella'r ffordd y mae'r llysoedd teulu'n gweithio.

Gofynnwyd i blant roi eu barn i'r panel am y ffordd y mae'r system yn gweithio ac am eu profiad nhw ohoni. Hefyd gofynnwyd iddynt ddweud beth oedd eu barn am rai o syniadau'r panel i wella'r system. Er mwyn cyfrannu at hyn, gwnaeth y Cyfarwyddwr Hawliau Plant dros Loegr gynnal dau ddigwyddiad ymgynghori yng Nghaerlŷr lle gofynnwyd i blant a phobl ifanc roi eu barn am argymhellion y panel, drwy drafodaeth a sesiynau pleidleisio rhyngweithiol.

Nawr mae'r panel wedi cyhoeddi ei argymhellion terfynol i wella cyfiawnder teuluol. Mae'r nodyn hwn yn dweud beth mae'r panel wedi'i benderfynu am rai o'r prif bwyntiau yr oedd plant a phobl ifanc wedi'u codi gyda nhw dros y 21 mis diwethaf.

Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer Panel yr Adolygiad gan y Cyfarwyddwr Hawliau Plant dros Loegr ac mae wedi'i seilio ar beth mae'r Panel wedi'i ddweud.

Yr Argymhellion Terfynol

Mae hwn yn grynodedb i blant a phobl ifanc o'r prif argymhellion gan Banel yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol. (Gallwch weld yr holl argymhellion yn llawn yn y ddolen hon

<http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf>).

Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol newydd

Mae'r system cyfiawnder teuluol yn cynnwys barnwyr, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru a Lloegr. Ei gwaith yw helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i ddelio â'r problemau teuluol y maent yn eu hwynebu sy'n golygu bod rhaid iddynt fynd i'r llys neu gael cymorth arall. Gallai hyn olygu gofyn i'r llys benderfynu a oes angen i blentyn gael ei roi mewn gofal er mwyn cadw'r plentyn hwnnw'n ddiogel, neu benderfynu beth ddylai ddigwydd pan fydd rhieni'n gwahanu.

Roedd panel yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol yn credu nad yw'r system yn gweithio ar ei gorau i helpu'r bobl y mae i fod i'w helpu. Maent wedi awgrymu newidiadau y maent yn gobeithio y byddant yn gwella'r system. O ganlyniad i hyn, dylai plant, pobl ifanc ac oedolion gael gwell profiad pan fydd angen cymorth arnynt.

Cyfyngedig

Eich barn chi: Mae angen i blant gael mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylid cynnal mwy o gyfarfodydd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu dweud eu barn. Dylai plentyn gael y dewis o siarad drosto'i hun os yw'n dymuno. Mae angen i lysoedd ystyried beth sydd orau i'r plentyn – dylent siarad â'r plentyn wyneb yn wyneb i gael gwybod hyn ac i holi am ddyuniadau'r plentyn. Dylent roi'r plentyn yn gyntaf. Dylent roi'r flaenoriaeth fwyaf i ddiogelwch a lles y plentyn gartref. Dylai plant gael set o ddewisiadau ynghylch sut maent am ddweud eu barn.

Mae'r panel yn argymhell:

Creu corff newydd i wneud i'r system weithio'n well. Yr enw ar hwn fyddai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol a byddai'n helpu i redeg yr holl rannau gwahanol o'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Byddai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol yn sicrhau bod pawb yn rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i helpu plant a phobl ifanc. Byddai'r gwasanaeth yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed y tu mewn a'r tu allan i'r llys.

Dylid cael Bwrdd Pobl Ifanc yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol, i gynghori'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol fel mae Bwrdd Pobl Ifanc CAF/CASS yn cynghori CAF/CASS nawr.

Dylai plant a phobl ifanc gael gwybodaeth sy'n addas i'w hoed i egluro beth sy'n digwydd pan fyddant yn rhan o achosion. Dylent gael cymorth, mor gynnar ag sy'n bosibl, i ddweud eu barn. Dylai plant hyn a phobl ifanc gael cynnig dewisiadau amrywiol ynghylch sut gallant roi eu barn i'r unigolion hynny sy'n penderfynu ar eu dyfodol. Un o'r dewisiadau y dylent ei gael yw siarad â barnwr os ydynt yn dymuno.

Gwneud i lysoedd weithio'n well

Weithiau, pan fydd plant, pobl ifanc ac oedolion yn mynd i lys byddant yn cael ei fod yn achosi dryswch ac yn codi ofn arnynt. Gallent weld barnwyr gwahanol bob tro y maent yn mynd i'r llys a gallai'r rhain siarad â nhw mewn ffordd nad ydynt yn ei deall. Hefyd nid yw barnwyr yn cael llawer iawn o wybodaeth am beth sy'n digwydd i blant wedi iddynt wneud penderfyniadau mewn achosion.

Roedd y panel yn credu bod barnwyr yn bobl bwysig iawn yn y system, ond bod angen cymorth arnynt i wneud eu gwaith yn well. Mae'r panel yn credu hefyd fod angen newidiadau i wneud llysoedd yn llai brawychus ac yn haws eu deall.

Eich barn chi: Dylai barnwyr gael mwy o hyfforddiant – cyn iddynt weithio gyda phlant dylent wybod sut i ddod i adnabod, deall a chyfathrebu'n dda â phlentyn.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol newydd osod safonau a chanllawiau newydd ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder teuluol.

Dylid cael hyfforddiant arbennig i farnwyr, ynadon a phobl eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol ar anghenion plant o wahanol oedran ac ar reoli achosion yn y ffordd orau i blant a phobl ifanc.

Cyfyngedig

Eich barn chi: Dylai'r un barnwr neu'r un ynadon wrando ar bob rhan o'r achos.

Mae'r panel yn argymhell: Lle bynnag mae'n bosibl, dylai'r un barnwr neu'r un ynadon wrando ar bob rhan o'r achos.

Eich barn chi: Dylid cael gwiriad i weld sut mae'r plentyn yn dod ymlaen rywdro ar ôl i'r llys wneud penderfyniad am fywyd y plentyn, i weld a oedd y penderfyniad hwnnw'n iawn i'r plentyn.

Mae'r panel yn argymhell: Dylid rhoi cynnig ar y syniad hwn er mwyn i farnwyr ac ynadon ddysgu beth oedd canlyniad eu penderfyniadau i blant a'u teuluoedd.

Eich barn chi: Dylai ystafelloedd llys gael eu gwneud yn fwy croesawgar i blant. Gallai hyn olygu cael teganau i blant iau, a gwneud i'r ystafell fod yn gyfforddus, yn olau, yn breifat ac yn dawel. Roeddech yn credu na ddylai ystafelloedd deimlo'n rhy ffurfiol, ac na ddylai oedolion y llys fod mewn dillad rhy ffurfiol. Roeddech yn cytuno â'r syniad o gael cysylltiadau fideo ar gyfer plant iau sy'n teimlo'n nerfus ynghylch siarad mewn llys.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai adeiladau llys fod mor ystyriol o deuluoedd ag sy'n bosibl er mwyn iddynt beidio â bod yn lleoedd sy'n codi ofn. Ni ddylai fod yn rhaid cynnal gwrandawiadau mewn ystafelloedd llys bob tro, ond gellid defnyddio ystafelloedd eraill, a dylid defnyddio cysylltiadau ffôn a fideo yn amlach lle mae hyn yn bosibl.

Pan gaiff plant eu symud o'u cartref

Weithiau nid yw rhieni'n gallu gofalu am eu plant cystal ag y dylent bob amser. Gallai hyn fod yn niweidiol i'r plant. Weithiau er mwyn amddiffyn y plant hyn gallai fod yn angenrheidiol symud y plant oddi wrth eu rhieni i'w cadw'n ddiogel. Am fod hyn yn benderfyniad mor bwysig gofynnir i'r llysoedd a ddylai hyn ddigwydd neu beidio a byddant am fod yn sicr eu bod yn gwneud y penderfyniad iawn. Ond mae hyn yn golygu eu bod yn cymryd amser hir iawn i benderfynu. Ar gyfartaledd mae'r llysoedd yn cymryd mwy na blwyddyn i benderfynu a ddylai plant gael eu symud oddi wrth eu teuluoedd.

Mae'r panel yn credu bod hyn yn rhy hir o lawer. I lawer o blant mae hyn yn amser pryderus pan na fyddant yn gwybod ble byddant yn byw na gyda phwy. Mae'r panel am weld penderfyniadau'n cael eu gwneud yn fwy cyflym fel bod plant yn gallu mynd ymlaen â'u bywydau.

Hefyd mae'r panel yn credu bod angen cael cydweithio gwell rhwng y gwahanol weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system i sicrhau bod pethau'n gweithio'n gyflym ac yn effeithlon.

Cyfngedig

Os oes rhaid i blant gael eu symud o'u cartref byddant un ai'n cael gofal gan yr awdurdod lleol neu gallent fynd i fyw gydag aelod arall o'u teulu neu ffrind.

Mae'n bwysig dros ben bod hyn yn cael ei gynllunio'n iawn ond mae'r panel yn credu bod llysoedd yn cymryd gormod o amser weithiau wrth edrych ar y cynlluniau hyn. Mae'r panel yn credu ei bod yn well bod awdurdodau lleol, yn hytrach na llysoedd, yn gwneud cynlluniau ar gyfer sut i ofalu am blant os yw llys wedi penderfynu bod angen iddynt adael eu cartref. Mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda phlant a'u teuluoedd wrth wneud y cynlluniau hyn.

Eich barn chi: Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch fod chwe mis yn amser rhy hir i'w gymryd ar gyfer achos.

Mae'r panel yn argymhell: Penderfynodd y Panel fod angen iddo ganiatáu hyd at chwe mis i gwblhau achos – ond ar ôl ystyried eich barn chi mae wedi argymhell y dylai'r amserlen ar gyfer pob achos gymryd i ystyriaeth beth yw'r amseriad gorau i bob plentyn. Penderfynodd hefyd y dylid cael llawer mwy o holi i weld sut mae achosion yn cael eu rheoli. Dylai barnwyr a phobl eraill sy'n gweithio gyda phlant mewn achosion cyfiawnder teuluol gael mwy o hyfforddiant ar beth sy'n bwysig i blant. Er mwyn ceisio cyflymu pethau cymaint ag sy'n bosibl, mae'r Panel yn argymhell mai dim ond un math o Lys Teulu y dylid ei gael yn y dyfodol (yn lle'r llysoedd ar dair lefel wahanol fel sydd nawr). Mae galw tystion arbenigol i gymryd rhan mewn achosion yn gallu arafu pethau, felly mae'r Panel yn argymhell hefyd mai dim ond pan fydd gwir angen tystion arbenigol y dylid eu galw i mewn. Mae'n credu hefyd y dylai'r llysoedd wrando'n fwy ar weithwyr cymdeithasol wrth benderfynu beth ddylai ddigwydd i blant.

Mae'r panel yn credu hefyd y dylid gwneud mwy o waith i ddatrys problemau teuluol mewn ffyrdd eraill, yn hytrach na mynd i'r llys. Y ffyrdd eraill yw cyfarfodydd cynadleddau grŵp teuluoedd, cyfryngu (lle mae teuluoedd yn cael help i ddatrys anghytundeb drostynt eu hunain), sesiynau gwybodaeth i rieni, a llysoedd arbennig ar gyfer problemau cyffuriau ac alcohol mewn teuluoedd.

Eich barn chi: Nid ydych yn edrych ar Swyddogion Adolygu Annibynnol fel pobl y byddech yn mynd atynt i ddatrys anghytundeb rhyngoch chi a'r cyngor sy'n gofalu amdanoch. Roeddech am weld Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cymryd camau i newid cynlluniau gofal os nad oedd y plentyn neu berson ifanc yn fodlon arnynt.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai cyngorau lleol adolygu'r ffordd y mae eu gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gweithio a sicrhau ei fod yn gweithio fel y dylai. Dylent sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ar nifer yr achosion a ddylai fod gan bob Swyddog Adolygu Annibynnol. Dylid cael adroddiad rheolaidd gan Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a'r cyngorydd sy'n arwain ar wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn ardal pob Cyngor ynghylch sut maent yn credu y mae'r Cyngor yn gwneud wrth ofalu am y plant sydd o dan ei ofal.

Eich barn chi: Dylai llysoedd benderfynu a ddylai'r plentyn aros yn ei gartref os yw awdurdod lleol yn poeni am ei les. Ond dylai llais y plentyn fod yn bwysig wrth benderfynu hyn, a dylai Gwasanaethau Cymdeithasol gael dweud eu barn hefyd. Roeddech yn poeni na ddylai barnwyr wneud y penderfyniadau pwysig hyn drwy ystyried geiriau ar ddarn o bapur yn unig – yn eich barn chi roedd angen iddynt ddod i adnabod y plentyn yn gyntaf. Yn eich barn chi dylai'r llys ystyried a yw'r plentyn yn cael gofal iawn yn ei gartref, a yw'r plentyn yn ddiogel, ac a yw'r plentyn yn hapus i symud i mewn i ofal. Yn eich barn chi roedd yn bwysig iawn nad yw brodyr a chwirydd yn cael eu gwahanu ac nad ydynt yn colli cysylltiad â'i gilydd.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai llysoedd benderfynu a fydd y plentyn yn byw gyda'i rieni, gydag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, neu'n symud i mewn i ofal. Y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r rhai a ddylai wneud cynllun gofal manwl wedyn ar gyfer y plentyn os yw'n symud i mewn i ofal. Roeddent yn cytuno â chi fod cyswllt rhwng brodyr a chwirydd yn bwysig iawn, ac maent yn credu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ei gwneud yn haws i blant sydd mewn gofal gael gweld eu brodyr a chwirydd. Maent wedi argymhell hefyd y dylai'r llywodraeth ystyried a ddylai brodyr a chwirydd allu gofyn i'r llysoedd adael iddynt weld ei gilydd.

Pan fydd rhieni'n gwahanu

Pan fydd rhieni'n gwahanu mae hynny'n gallu bod yn amser anodd iawn i blant a phobl ifanc. Weithiau nid yw rhieni'n gwybod beth yw'r ffordd orau i ddelio ag amser mor anodd ac mae hyn yn gallu cael effaith ddrwg ar blant.

Mae'r panel yn credu bod angen cael ffyrdd newydd o ddatrys anghytundeb o'r math hwn. Dylai'r rhain helpu rhieni i ddatrys pethau drostynt eu hunain. Dylai hyn ddigwydd yn fwy cyflym hefyd.

Eich barn chi: Roeddech yn cytuno â'r syniad o gael Cytundeb Rhianta sy'n dweud sut byddai rhieni'n gofalu am eu plant os oeddent wedi gwahanu. Yn eich barn chi, rhieni, plant a gweithwyr cymdeithasol oedd y tri pwysicaf a ddylai gael dweud beth sydd yn y Cytundeb. Roeddech yn credu hefyd y dylai rhieni orfod cadw at beth oedd yn y Cytundeb.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai rhieni gael help i wneud Cytundeb Rhianta am ofal eu plant os ydynt yn gwahanu. Hefyd, dylai rhieni gael gwybodaeth a chymorth i geisio datrys pethau er mwyn eu plant. Dylai hyn gynnwys cymorth gan gyfryngwr da, fel person sy'n helpu teuluoedd i ddatrys anghytundeb a dod i benderfyniadau eu hunain ar beth sydd orau i'r plentyn. Dylai pobl gwrdd â chyfryngwr a fydd yn eu helpu i weld a fyddai cyfryngu'n gallu gweithio iddyn nhw. Byddai'n dal yn bosibl trafod anghytundeb mewn llys os nad oedd y teulu'n gallu ei ddatrys.

Eich barn chi: Roeddech yn cytuno â'r syniad y dylai'r holl rieni gael taflen am eu cyfrifoldebau fel rhieni pan fydd plentyn yn cael ei eni.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai'r holl rieni gael taflen fyr pan fyddant yn cofrestru genedigaeth eu plentyn. Byddai'r daflen yn egluro eu cyfrifoldebau fel rhieni a gallent ei darllen eto yn y blynyddoedd i ddod.

Eich barn chi: Dylai'r gyfraith ddweud, pan fydd rhieni'n gwahanu, y dylai'r plentyn allu cael perthynas dda â'i ddau riant, ar yr amod bod hyn yn ddiogel ac ar yr amod bod y plentyn yn dymuno hynny.

Mae'r panel yn argymhell: Dylai plant gael perthynas dda â'u dau riant os ydynt yn dymuno, ac ar yr amod bod hynny'n ddiogel, wedi i'w rhieni wahanu. Ond ni ddylai'r gyfraith ddweud y dylai'r plentyn orfod treulio'r un maint o amser gyda'i ddau riant gan ei bod yn bosibl nad hyn fydd orau i'r plentyn.

Dylid cael "gorchymyn trefniadau plentyn" newydd i'w ddefnyddio gan y llys i drefnu sut y dylid gofalu am blentyn os nad yw ei rieni'n gallu cytuno ar hyn. Ni fyddai'r gorchymyn hwn yn sôn am hawl un rhiant neu'r llall i ddarparu 'preswylfan' neu gael 'cyswllt' mewn perthynas â'r plentyn. Yn lle hynny byddai'n trefnu beth ddylai ddigwydd mewn cysylltiad â'r pethau ymarferol sy'n bwysig ym mywyd y plentyn hwnnw. Dylid cymryd camau'n gyflym os na fydd pobl yn gwneud beth mae'r gorchymyn trefniadau plentyn yn dweud y dylent ei wneud.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Nawr bydd y llywodraeth yn mynd drwy awgrymiadau'r panel i weld a yw'n cytuno â nhw ac, os yw'n cytuno, sut bydd yn eu gweithredu. Wedyn bydd y llywodraeth yn cyflwyno 'ymateb' ffurfiol i'r adroddiad hwn. Bydd hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud. Bydd ymateb y llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder: www.justice.gov.uk neu gallwch ddilyn beth mae'r llywodraeth yn ei wneud drwy Twitter: @MoJGovUK

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol, cysylltwch â partners@justice.gsi.gov.uk

Gair o ddiolch

Byddai'r Cyfarwyddwr Hawliau Plant dros Loegr a phanel yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol yn hoffi diolch i'r holl blant a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn, yn enwedig y rhieni a ddaeth i'r ddau ddigwyddiad ymgynghori yng Nghaerlŷr. Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ei darparu wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn syniadau'r panel a'r gobaiht yw y bydd hyn yn helpu i wella profiad plant eraill a fydd, gwaetha'r modd, yn wynebu'r canlyniadau o chwalfa deuluol yn y dyfodol.